

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Cyfadrn Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, CF45 4UQ

Dyma hysbysiad yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Cyngor RhCT), ac yntau wedi ymgynghori â'r bobl hynny yr oedd yn ofynnol iddo ymgynghori â nhw, yn cynnig:

Cynyddu nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion yn Ysgol Gynradd Dolau ac adeiladu estyniad newydd i'r ysgol bresennol. Bydd Cyngor RhCT yn parhau i gynnal yr ysgol a fydd yn ysgol ddwy iaith ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed:

Ysgol Gynradd Dolau, Heol Pen-y-bont ar Ogwr, Llanharan, Pont-y-clun, CF72 9RP

Ymgwymerodd Cyngor RhCT â chyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynigion yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rheiny a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig, a barn Estyn ar gael ar ein gwefan <http://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/Schoolconsultations.aspx>.

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion yma erbyn 1 Medi 2021.

Nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd yw 441 ynghyd â'r Ysgol Feithrin a bydd nifer y llefydd yn cynyddu i 921 ynghyd â'r Ysgol Feithrin. Y nifer derbyn i'r Dosbarth Derbyn ar gyfer disgyblion 4 oed yn yr ysgol newydd fydd 131 (yn y flwyddyn ysgol gyntaf ar ôl i'r cynigion gael eu rhoi ar waith). Bydd 124 o leodd meithrin rhan-amser.

Bydd cludiant ar gael i'r disgyblion yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor RhCT. Ar hyn o bryd, mae Cyngor RhCT yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu'i ysgol gynradd, babanod neu ysgol iau berthnasol, os ydyn nhw'n byw y tu hwnt i 1.5 o filltiroedd cerdded o'r ysgol honno. Ysgol y dalgylch, neu'r ysgol agosaf, ydy'r 'ysgol berthnasol'.

Caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion yma cyn pen 28 diwrnod o'u cyhoeddi, hynny yw, erbyn Mawrth 20 2019. Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ. E-bost: CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk.

Bydd Cyngor RhCT yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (ac sydd heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 7 niwrnod o benderfynu ar y cynnig.

Gaynor Davies

Llofnod:

Gaynor Davies

Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Addysg a Chynhwysiant
ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Dyddiad: 18 Chwefror 2019

NODYN ESBONIADOL

Mae'r gwaith i adeiladu 1,850 o anheddau yn cael ei ystyried yn gam cyntaf o'r hyn sy'n debygol o fod yn ddatblygiad llawer mwy o faint dros y blynyddoedd nesaf yn yr ardal yma.

Bydd darpariaeth yr adeilad ysgol newydd yn cael ei rheoli a'i harwain gan Ysgol Gynradd Dolau, ac yn rhan o'r ddarpariaeth addysg fydd yn gwasanaethu'r ardal ehangach yma. Rywbryd yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn cynnal asesiad o'r gofynion a'r galw am leoedd ysgol, gan gynnwys dewis tebygol y rhieni o ran iaith, ac yn ystyried sefydlu'r adeilad ysgol newydd yn ysgol newydd yn ei rhinwedd ei hun.

Bydd modd i Bennaeth Dolau ddefnyddio'r ddau adeilad i gynnal dosbarthiadau (fel bo'n briodol) er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr holl adnoddau sydd ar gael. Bydd yr ysgol yn 'tyfu' wrth i ragor o dai gael eu hadeiladu.